

Mesurau Gwella Coridor yr M4
Tîm Ymgysylltu

**M4 (Magwyr i Gas-bach) –
Mesurau Gwella'r Coridor**

Adroddiad Cryno
Gweithdy'r Cynghorau

11-

Drafft 1 | Ebrill 2011



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ARUP

Cynnwys

	Tudalen	
1	Crynodeb gweithredol	1
2	Cyflwyniad	2
3	Diben y gweithdy	2
4	Sut aethpwyd ati i gasglu barnau cyfranogwyr	3
5	Barn cyfranogwyr am y gweithdy	3
6	Problemau trafndiaeth	5
	6.1 Sylwadau ar restr problemau Llywodraeth Cynulliad Cymru	5
	6.2 Problemau newydd	5
7	Cyrchnodau trafndiaeth	6
	7.1 Sylwadau ar restr cyrchnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru	6
	7.2 Cyrchnodau newydd	7
8	Nodau cyffredinol	7
	8.1 Sylwadau ar nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru	7
	8.2 Nodau newydd	8
	8.3 Nodau newydd y tu hwnt i 2020	8
9	Negeseuon i Lywodraeth Cynulliad Cymru	8

Atodiadau

Atodiad A

Mynychwyr y Gweithdy

Atodiad B

Ffocws ystyriaethau cyfranogwyr – Problemau, Cyrchnodau a Nodau diffiniedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (Magwyr i Gas-bach)

Atodiad C

Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

1 Crynodeb gweithredol

Roedd y gweithdy hwn yn un o nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddechrau 2011, er mwyn ceisio barnau ar faterion yn gysylltiedig â theithio ar Goridor yr M4: Magwyr i Gas-bach. Roedd y cyfranogwyr o blith Awdurdodau Lleol ar, neu gerllaw, coridor trafndiaeth yr M4 Magwyr i Gas-bach, ac roeddent yn gymysgedd o swyddogion ac aelodau etholedig. Gwahoddwyd Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol y mae eu hetholaethau'n croesi ardal Coridor yr M4, ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Diben y gweithdy oedd rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, i geisio'u barnau am ddadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o broblemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, ac i glywed barnau am gyrchnodau a nodau'r Rhaglen, sy'n rhedeg tan 2020. Gwahoddwyd cyfranogwyr hefyd i ddweud wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw broblemau ychwanegol maent yn eu cael, a chyrchnodau a nodau newydd, sy'n ceisio datrys un neu fwy o'r problemau a nodwyd.

Yn gyffredinol, nid oedd y cyfranogwyr yn anghytuno'n sylfaenol â'r rhestr o broblemau, cyrchnodau a nodau a roddwyd gerbron gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ychwanegwyd cryn nifer o sylwadau atynt, a chynigiwyd nifer o rai newydd.

Un thema a ddaeth i'r golwg yn gynnar oedd yr angen i esbonio rôl yr adran hon o'r M4. Mae'n cael ei defnyddio'n drwm ar gyfer teithiau byr a theithiau hir, ac roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn y dylid gwneud penderfyniad ynghylch a ddylai'r ffordd wasanaethu fel llwybr strategol ar gyfer teithiau hir yn bennaf, ac os felly, dylid rhoi mesurau ar waith i annog pobl i beidio â'i defnyddio ar gyfer teithio lleol (e.e. cau cyffyrdd).

Nodwyd dulliau trafndiaeth amgen cynaliadwy ym mhob un o'r trafodaethau, ac roedd barn gyffredin (ond nid barn unfryd o angenrheidrwydd) y dylai unrhyw ateb gynnwys ystyriaeth ddwys o'r agwedd hon.

Cododd effeithiau canlyniadol problemau ar yr M4 o dan benawdau amrywiol, ac ystyriwyd yn gyffredinol eu bod yn broblematig iawn. Ar amserau teithio prysur, ac yn benodol, pan fo tarfu dros dro effeithir yn gyflym iawn ar ffyrdd lleol, mae hynny yn ei dro yn effeithio ar wasanaethau bysiau lleol wedyn, er enghraifft. Teimlai cyfranogwyr fod lle i reoli sefyllfaoedd felly'n well, boed yn ddamweiniau, digwyddiadau'n gysylltiedig â'r tywydd neu achosion eraill. Dywedwyd bod y problemau hyn yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg llwybrau amgen addas.

'Cydgysylltu' gwell oedd y thema arall a ddaeth i'r golwg. Mewn perthynas â chynllunio defnydd tir ac astudiaethau trafndiaeth rhanbarthol, teimlwyd y gellid eu hintegreiddio'n well. Wrth ddelio â damweiniau, dylai fod cydweithredu gwell rhwng asiantaethau.

2 Cyflwyniad

Fel rhan o raglen ymgysylltu Mesurau Gwella Coridor yr M4, ar ddechrau 2011 cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru) weithdy i Gynghorau yn ardal coridor trafndiaeth Magwyr i Gas-bach. Roedd y gweithdy'n un o nifer o ddigwyddiadau, a gellir cael mwy o wybodaeth amdanynt a rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth. Am ychwaneg o wybodaeth am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach (M4 CEM), ymwelwch â thudalennau cynlluniau ffordd wefan Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad cryno o'r gweithdy – gellir gweld trawsgrifiad o'r taflenni gwaith a'r siartiau troi a gynhyrchwyd yn y gweithdy ar y wefan uchod hefyd. Hwyluswyd y gweithdy gan yr arbenigwyr ymgysylltu Catrin Ellis Associates.

3 Diben y gweithdy

Diben y gweithdy oedd rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ac i geisio'u barnau am ddadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o broblemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a'r cyrchnodau sydd i'w cyflawni er mwyn mynd i'r afael ag un neu fwy o broblemau. Ar ôl edrych ar y problemau a'r cyrchnodau, gofynnwyd i'r gyfranogwyr hefyd ystyried y darlun mwy, drwy ystyried nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 hyd at 2020, a thu hwnt.

Yn ogystal â gofyn i gyfranogwyr pam fyddent yn cytuno neu'n anghytuno, neu eisiau newid problem, cyrchnod neu nod benodol, gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer problemau, cyrchnodau neu nodau ychwanegol.

Yn y cyfnod cynnar hwn yn y broses o siarad â phobl a rhanddeiliaid, a gwrando arnynt, bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw deall unrhyw wahaniaethau barn neu bwyslais ynglŷn â'r problemau sydd i'w datrys, a chan hynny llunio cwmpas Rhaglen Wella Coridor yr M4, drwy osod nodau a chyrchnodau priodol. Felly, esboniwyd i gyfranogwyr nad oeddent yn gofyn iddynt, bryd hynny, am awgrymiadau ar gyfer atebion i'r problemau trafndiaeth, byddai cyfle i wneud hyn yn dod nes ymlaen yn y flwyddyn. Fodd bynnag, cynigiwyd cryn nifer o atebion; maent wedi'u nodi a byddant yn cyfrannu at gyfnod nesaf y gwaith.

Roedd y cyfranogwyr yn swyddogion ac yn aelodau etholedig o'r Awdurdodau Lleol yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan goridor trafndiaeth yr M4 Magwyr i Gas-bach, ac roeddent yn cynrychioli nifer o adrannau yn ychwanegol at yr adran Drafnidiaeth.

4 Sut aethpwyd ati i gasglu barnau cyfranogwyr

Rhodddwyd y cyfranogwyr i eistedd wrth fyrddau o rhwng pedwar a chwech o bobl, a gyda'i gilydd roeddent yn cynrychioli ystod o farnau a safbwyntiau. [Er enghraifft, rhodddwyd Aelod etholedig â buddiant penodol ym materion neu bortffolio trafndiaeth ei gyngor, i eistedd gyda swyddog o gyngor gwahanol sydd â chyfrifoldeb am faterion amgylcheddol neu faterion mynediad, ochr yn ochr â swyddog o Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth Cynulliad Cymru, a rhywun o Gynghair Trafndiaeth De Ddwyrain Cymru.] Y gobaith oedd y byddai'r ystyriaethau wrth bob bwrdd yn ysgogi syniadau sy'n ystyried ystod eang o brofiadau a materion, ac felly byddai'r adborth a gasglwyd yn rhoi dealltwriaeth gyfannol o farnau Llywodraeth Leol.

Er mwyn helpu ffocws y grwpiau, aethant ati i ddefnyddio taflenni gwaith a oedd yn eu tywys drwy farn Llywodraeth Cynulliad Cymru am y problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn ardal y coridor, y cyrchnodau i'w cyflawni a nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

Amcan y gweithdy oedd casglu barnau a gwybodaeth yn deillio o ystod eang o safbwyntiau Llywodraeth Leol, a dechrau deall gwahaniaethau barn neu bwyslais o ran y deunydd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Felly, gofynnwyd i'r grwpiau cyn belled ag y bo modd i lunio barn ar y cyd. Fodd bynnag, os oes barnau amgen cryf mewn unrhyw grŵp, fe'u hanogwyd i adrodd yn ôl ar fwy nag un farn ar unrhyw broblem, cyrchnod neu nod penodol. Roedd cyfle hefyd yng nghwestiwn olaf ffurflen werthuso'r gweithdy, i gyfranogwyr fynegi barnau unigol, ac anfon neges i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â sut y dylid dwyn Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn eu blaen.

Anogwyd y grwpiau i roi sylwadau ar y problemau, y cyrchnodau neu'r nodau hynny yr oeddent yn eu hystyried yn fwyaf perthnasol, neu'r rhai pwysicaf neu'r rhai â mwyaf o frys yn eu barn hwy. Felly, ni wnaeth pob un o'r grwpiau gynnig sylwadau ar yr holl bwyntiau a gyflwynwyd.

5 Barn cyfranogwyr am y gweithdy

Llenwyd ffurflen werthuso gan y cyfranogwyr, gan roi i ni eu barn am y gweithdy, a'r deunyddiau gwybodaeth, a oedd yn disgrifio ac yn rhoi tystiolaeth i gefnogi'r arfarniad a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â phroblemau, cyrchnodau a nodau, a anfonwyd cyn y gweithdy.

Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr a ymatebodd o'r farn fod y deunydd gwybodaeth yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Roedd un neu ddau o'r farn nad oedd y wybodaeth a anfonwyd o flaen llaw yn rhoi digon o wybodaeth am gwmpas daearyddol y prosiect, ac awgrymwyd y gallai hynny fod wedi rhwystro rhai cyfranogwyr, gan yr ymddengys ei fod yn dynodi fod y Rhaglen yn ymwneud yn bennaf â materion o amgylch Casnewydd. Mynegodd nifer o

gyfranogwyr siom nad oedd “atebion” yn cael lle yn y deunyddiau gwybodaeth a'r gweithdy.

Rhoddodd pymtheg o un ar hugain o gyfranogwyr a atebodd sgôr o 7/10 neu uwch i'r gweithdy, a dywedodd 13 o 21 ei fod wedi cyflawni'i nodau'n llawn; dywedodd 8 mai ond yn rhannol y llwyddodd i gyflawni'i nodau. Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr eto fynegi'u siom ynghylch diffyg ymgynghori â hwy eto ynglŷn ag atebion. Dywedodd 19 o 21 o ymatebion eu bod wedi'i chael hi'n hawdd neu'n hawdd iawn mynegi'u barn, ac roedd sylwadau'n mynegi gwerthfawrogiad am y cyfle i wrando ar farnau pobl eraill; roeddent hefyd yn canmol y fformat byrddau crwn. Dywedodd 2 o bobl nad oedd hi'n hawdd iddynt fynegi'u barn.

Mae'r ymatebion i gwestiwn olaf y ffurflen adborth, a oedd yn gwahodd cyfranogwyr i roi neges unigol i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, wedi'u hatgynhyrchu'n llawn yn adran 9. Ysgogodd y cwestiwn hwn ystod eang iawn o sylwadau, o negeseuon ar strategaeth a ffyrdd o weithio gyda'n gilydd, e.e.:

- “Angen mynd i'r afael â chyllido seilwaith allweddol yng Nghymru”;
- “Ystyried opsiynau ac atebion ‘sicrhau’r dyfodol’ sy'n ystyried materion hirdymor fel allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd, fframwaith naturiol, a chymunedau cynaliadwy”
- “Mae angen cysylltiadau cryfach rhwng proses Mesurau Gwella Coridor yr M4, cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol a chynllunio defnydd tir”;
- “Caniatáu i awdurdodau lleol roi mewnbwn pellach i'r rheolaeth dros yr M4 a'r broses benderfynu”;

Roedd awgrymiadau hefyd ar gyfer ystod eang o atebion, e.e.:

- “Adeiladu parcffordd wrth gyffordd Twnnel Hafren”;
- “Ai tagfeydd ydyw neu dagfeydd ar adegau prysur? Allwn ni ysgogi defnyddio ceir ar adegau tawel?”

Cymerodd ychydig o dan draean o'r cyfranogwyr y cyfle i fynegi'u dymuniad i ddatblygu M4 newydd. Soniodd nifer ohonynt am yr angen i alluogi gwahanu defnyddwyr ffordd teithio byr a defnyddwyr ffordd teithio pellach, gan hyrwyddo'r M4 (neu M4 newydd) ar gyfer teithio strategol; fe wnaeth nifer gydnabod hefyd y swyddogaeth bwysig sy'n cael ei chyflawni gan yr M4, yn galluogi mynediad i Gasnewydd ac oddi yno.

6 Problemau trafndiaeth

6.1 Sylwadau ar restr problemau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn gyffredinol, mae sylwadau'r cyfranogwyr yn dweud fod dadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r prif broblemau trafndiaeth yn y coridor. Fodd bynnag, daeth rhai gwahaniaethau pwyslais o ran y brys i ddatrys y rhain, ac o ran barnau am eu hachosion gwaelodol a ffactorau cyfrannol, i'r golwg:

- Roedd rhai pobl yn gweld twf economaidd (Problem 4) yn fwy o gyfrifoldeb i gyflogwyr a busnesau na'r rhwydwaith trafndiaeth, ac roedd awgrym y gallai busnesau fod yn fwy hyblyg e.e. cynllunio dosbarthiadau dros 24 awr.
- Nid oedd pawb yn cytuno bod cerbydau nwyddau trwm (HGV) yn ymdopi'n wael â thagfeydd (Problem 6). Awgrymwyd nad oedd gyrwyr cymwys a phrofiadol iawn yn ychwanegu at dagfeydd, a soniodd grŵp arall am brofiad o geir yn gyrru'n rhy agos at ei gilydd drwy'r rhan 50 mya.
- Tynnwyd sylw at y diffyg dewisiadau amgen o ran trafndiaeth gynaliadwy, ac archwiliwyd y thema hon ymhellach yn y trafodaethau am gyrchnodau a nodau.
- Agwedd arall a godwyd yma, y soniwyd amdani hefyd mewn trafodaethau diweddarach, oedd rôl y rhan hon o'r M4, a ph'un a ddylai barhau i wasanaethu traffig lleol a thraffig hirdeithiog.
- Dywedodd rhai grwpiau fod y cyfyngiad 50mya wedi helpu lleihau llygredd aer a damweiniau. Yn wir, mewn perthynas â Phroblem 13 (cyfraddau damweiniau uwch na'r cyfartaledd), er bod cyfranogwyr yn cytuno fod hyn wedi bod yn broblem, roeddent yn meddwl ei bod wedi'i datrys o bosibl drwy'r Cyfyngiad Cyflymder Amrywiol a'r rhan 50mya.
- Cynigiodd pedwar o chwech o'r grwpiau sylwadau am Broblem 10, ac roedd pawb yn cytuno bod sŵn yn broblem; soniodd dau ohonynt am waith cynnal a chadw dros nos fel problem benodol.
- Cytunodd dau grŵp fod y system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu'r hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd (Problem 12). Dywedodd un grŵp o gyfranogwyr nad oeddent wedi'u hargyhoeddi fod hyn yn broblem.

6.2 Problemau newydd

Gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried a oedd unrhyw broblemau sylweddol nad oedd wedi cael sylw eto yn nadansoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chynigiwyd nifer ohonynt.

- Diffyg darpariaeth dulliau trafndiaeth amgen (yn hytrach na'r car)
Roedd pum problem newydd yn ymwneud â diffyg amlwg dulliau trafndiaeth amgen digonol a chynaliadwy. Roedd pryder nad oedd dewisiadau trafndiaeth yn cael eu hintegreiddio yn gysylltiedig â hyn.
- Effeithiau ar fysiau
Nodwyd, er mai prin iawn y bydd bysiau lleol yn defnyddio'r M4 ac eithrio ar groesffyrdd, bod effaith tagfeydd neu rwystrau ar yr M4 yn ddifrifol ac yn ddi-oed.
- Effeithiau canlyniadol ar ffyrdd lleol
Roedd nifer o broblemau newydd yn ymwneud â'r effaith ganlyniadol ar ffyrdd lleol yn sgil tagfeydd neu broblemau eraill ar yr M4.
- Dewisiadau amgen i'r M4 pan fydd rhwystr / tagfeydd
Roedd problemau newydd a oedd yn dweud nad oes llwybrau amgen digonol pan fydd rhwystr ar yr M4 neu pan fydd tagfeydd trwm, yn gysylltiedig â'r effeithiau canlyniadol.
- Rheoli problemau ar yr M4 neu gerllaw yr M4
Daeth hyn i'r golwg fel thema mewn nifer o'r problemau newydd. Yn achos gwaith ar y ffordd sy'n effeithio ar yr M4, awgrymwyd bod cyfathrebu gwael rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd. Dywedodd un grŵp ei bod yn cymryd gormod o amser i glirio damweiniau, a soniodd grŵp arall am yr angen am gyngor cliriach i'r cyhoedd pan fo problemau.
- Effaith datblygiadau newydd
Roedd dwy broblem newydd yn disgrifio effaith datblygiadau newydd ar draffig, datblygu o amgylch cyffyrdd yn benodol, yn ogystal ag ar hyd y coridor yn unig.

7 Cyrchnodau trafndiaeth

7.1 Sylwadau ar restr cyrchnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Roedd cytundeb cyffredinol â nodau trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y coridor.

- Cyrchnod 1 oedd 'ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru'. Roedd un grŵp eisiau ychwanegu 'mwy diogel', a grŵp arall eisiau ychwanegu 'dibynadwy'. Teimlai trydydd grŵp y dylai'r cyrchnod gynnwys symud o fewn y rhanbarth hefyd.
- Tynnwyd sylw eto at ddulliau teithio amgen mewn nifer o ymatebion i gyrchnodau amrywiol. Dylid ystyried dewisiadau amgen i deithio hir yn

ogystal â theithio lleol (Cyrchnodau 3 a 6) a gogledd / de yn ogystal â dwyrain / gorllewin. Gellid esbonio Cyrchnod 2 i gynnwys mannau trosglwyddo rheilffordd a mannau trosglwyddo amlfodd.

- Ceisiwyd ehangu Cyrchnod 9 ar lygredd aer, i fynd ag ef y tu hwnt i 'ardaloedd nesaf at yr M4' i gynnwys y coridor ehangach.
- Awgrymwyd y dylai Cyrchnod 10 ar sŵn gael ei ymestyn i gynnwys lefelau sŵn uchel ar gyfer pob dull trafndiaeth ar hyd y coridor (h.y. nid o'r M4 ei hun yn unig).

7.2 Cyrchnodau newydd

- Dulliau trafndiaeth amgen

Roedd 5 o 13 cyrchnod newydd yn ymwneud â dulliau trafndiaeth amgen. Roeddent yn cynnwys defnyddio mwy o'r rheilffordd, annog i newid dull teithio a chyrchnod i ddatblygu system drafnidiaeth integredig enghreifftiol.

- Rôl yr M4

Roedd un cyrchnod newydd yn ymdrin â rôl yr M4 yn y dyfodol, gan awgrymu y dylai hyn gael ei esbonio o ran teithio lleol / teithio hir, ac roedd un arall yn ceisio rhwystro teithio lleol ar yr M4 yn benodol.

- Integreiddio

Roedd integreiddio yn ganolog i gyrchnod a oedd yn ceisio gwella integreiddio cynllunio defnydd tir a'r cynllun trafndiaeth rhanbarthol, ac i gyrchnod arall a oedd yn gweld cydweithredu gwell rhwng asiantaethau fel y ffordd ymlaen at wella'r modd yr ymdrinnir â damweiniau.

- Cerbydau a gyrwyr

Mynegwyd pryder ynghylch safon cerbydau nwyddau trwm tramor fel cyrchnod i orfodi rheoliadau. Roedd rhai o'r farn hefyd ei bod yn bwysig addysgu pob gyrrwr tramor a gyrwyr y DU nad oeddent wedi cael hyfforddiant gyrru ar draffordd.

8 Nodau cyffredinol

8.1 Sylwadau ar nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru

8.1.1 Nod 1 Cymdeithasol

Roedd Nod 1 yn ymwneud â hygyrchedd at wasanaethau. Nid oedd unrhyw anghytuno â'r nod fel y cyfryw, ond awgrymodd un grŵp y byddai'r nod hwn yn fwy priodol i'r rhwydwaith priffyrdd lleol am mai symud traffig lleol o'r M4 ei

hun ddylai'r bwriad fod. Gwnaeth grŵp arall bwynt tebyg ynglŷn â swyddogaethau gwahanol ffyrdd lleol a ffyrdd strategol.

8.1.2 Nod 2 Economaidd

Ni wnaeth unrhyw un anghytuno â'r nod economaidd hwn i gefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru.

8.1.3 Nod 3 Amgylcheddol

Eto, nid oedd unrhyw anghytuno â'r nod hwn, ac roedd un grŵp am ei ymestyn i gynnwys lleihau carbon, ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, a'i gryfhau i gynorthwyo effeithiau cadarnhaol.

8.2 Nodau newydd

Roedd dau o'r chwe nod newydd yn ymwneud â sefydlu rôl yr M4 fel llwybr strategol.

Roedd y nodau newydd eraill yn ymwneud â

- Mwy o rôl i Awdurdodau Lleol yn llunio / rheoli'r M4
- Dewisiadau trafndiaeth ehangach i'r rhan fwyaf o bobl
- Sicrhau dyfodol y coridor tan 2020 o leiaf
- Pryder nad yw unrhyw ateb sy'n bodloni un o'r nodau (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol) yn amharu'n ddifrifol ar un o'r nodau eraill

8.3 Nodau newydd y tu hwnt i 2020

Cynigiwyd dau nod newydd ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2020. Roedd un yn annog twf economaidd a rheoli'r twf traffig yn sgil hynny (h.y. peidio â cheisio lleihau traffig ar draul twf economaidd). Roedd y llall yn syml yn galw am adeiladu'r M4 newydd.

Yn nodiadau'r daflen waith, roedd un grŵp yn rhagweld y dyfodol tymor hir e.e. o'lew ar ei ddrutaf, ac roedd eisiau gweld nod a oedd yn galw am seilwaith trafndiaeth integredig a chynaliadwy a fyddai'n gallu ymdopi ag amodau newidiol ac a fyddai'n cynnig dewis i ddefnyddwyr. Roedd hyn i gyd yn rhan o "sicrhau'r dyfodol".

9 Negeseuon i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Llenwodd cyfranogwyr y gweithdy ffurflenni adborth, a oedd yn cynnwys cyfle i anfon neges i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt fwrw ymlaen â Mesurau Gwella Coridor yr M4. Atgynhychir y negeseuon isod, ond maent wedi'u grwpio yn ôl themâu.

M4 fel llwybr strategol (neu beidio)

- Peidio â chau'r mynediad i'r M4 yng Nghasnewydd
- Edrych ar ffyrdd i symud traffig o'r M4 nad oes angen iddo ddefnyddio'r ffordd honno e.e. Parcio a Theithio, Cyswllt Dyffryn a Queensway
- Adeiladu M4 (newydd) gan gadw'r M4 fel llwybr strategol. Cau cyffyrdd ar gyfer traffig lleol.

Ffordd liniaru'r M4

- Os yw ffordd liniaru'r M4 yn flaenoriaeth, yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ariannu'r cynnig am mai tymor byr yn unig fydd unrhyw ateb arall, a gall yn wir gyfyngu ar adfywio economaidd.
- Dulliau teithio amgen
- Canolbwyntio ar deithio amgen yn hytrach na gwelliannau ffordd. Edrych ar y tymor hir yn hytrach na'r trefniadau/gwelliannau tymor byr arferol. Mewn gwirionedd, ni fydd M4 yn cael ei huwchraddio, felly mae angen i ni ganolbwyntio ar welliannau mewn trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys trefniadau cludo nwyddau.

Rôl Awdurdodau Lleol

- Caniatáu i awdurdodau lleol roi mewnbwn pellach i'r rheolaeth dros yr M4 a'r broses benderfynu.

Cynllunio cysylltiadau

- Mae angen cysylltiadau cryfach rhwng proses Mesurau Gwella Coridor yr M4, cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol a chynllunio defnydd tir
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu atebion trafndiaeth yn cael ei gysylltu a'i integreiddio â chynllunio ehangach ar gyfer defnydd tir, cynllunio gofodol, lleihau carbon a diffygion amgylcheddol yn Ne Ddwyrain Cymru, Cymru a'r DU yn ehangach. Mae angen cyd-destun cynllunio arbenigol llawn, a Chynlluniau Gwlad a Thref. Hefyd, ystyried dewisiadau ac atebion 'sicrhau'r dyfodol' sy'n ystyried materion tymor hir fel allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd, y fframwaith naturiol a chymunedau cynaliadwy.

Cyffordd Twannel Hafren

- Adeiladu parcffordd wrth gyffordd Twannel Hafren
- Cafwyd llawer o sylwadau amrywiol am yr agenda trafndiaeth gyhoeddus. Gobeithio bydd y strategaeth yn cefnogi cysylltiadau â chyffordd Twannel Hafren

Cyfathrebu ac ymgysylltu

- Rhoi gwybodaeth lawn am gynigion yn gyson i'r cyhoedd a'r awdurdodau unedol

Arall

- Gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf

- Ymddengys mai tacteg oedi yw'r ymgynghoriad hwn er mwyn osgoi gorfod ymgymryd â'r prosiect a gwario arian
- Roedd pob un o'r grwpiau yn feirniadol o'r penderfyniad i ganslo'r cynigion ar gyfer yr ail M4, ac roedd eu sylwadau'n dweud mai ond chwarae â'r problemau y mae'r ymarferiad hwn ar y gorau, ac ni all fynd i'r afael â phroblemau presennol yn effeithiol. Fodd bynnag, fe wnaethom gytuno bod y nodau ac ati yn rhai teilwng. Mae'r amodau economaidd presennol yn ymwneud â materion olew drud, ac awgrymwyd y gallai fod lawn mor fforddiadwy i gynnal, cyfnerthu a rheoli, yn hytrach na rhagdybio twf economaidd yn y dyfodol, a bydd ffyniant yn cynyddu y tu hwnt i'r hyn sydd gennym yn barod.
- Nid yw gwasanaethu De Cymru gyfan a thu hwnt rhwng dwy lôn yn nhwneli Brynglas yn mynd i weithio fyth. Byddai'r ysgogiad i'r economi yn sgil prif gynllun ffordd (M4 newydd) yn werthfawr eithriadol o ran helpu economi De Cymru i godi'n uniongyrchol o'r dirwasgiad, yn ogystal â holl fuddion hygrychedd gwell.
- Ai tagfeydd ydyw neu dagfeydd ar adegau prysur? Allwn ni ysgogi defnyddio ceir ar adegau tawel?
- Ystyried trefn gwrthlif ar yr M4, sef bod traffig presennol y draffordd yn teithio i'r dwyrain a thraffig M4 newydd yn teithio i'r gorllewin, neu fel arall (dewis rhatach). Cyflwyno bysiau ysgol yn enwedig ar lefel ysgol gynradd (byddai hyn yn datrys % sylweddol o'r defnydd o'r M4). Agor neu greu mwy o orsafoedd rheilffordd llai trwy ddefnyddio/uwchraddio leiniau rheilffordd presennol
- Angen mynd i'r afael â chyllido seilwaith allweddol yng Nghymru
- Ailagor yr orsaf ym Magwyr/Gwndy. Symud traffig oddi ar ffyrdd yr M4/M48
- Rwy'n pryderu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud penderfyniad i fabwysiadu mesurau 'meddal' dewis doethach, gan anwybyddu'r mater tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau pellach ar y materion 'meddalach' yn dangos canlyniadau negyddol, ac felly ni fyddant yn cael eu gweithredu'n llawn i ddileu'r angen am ffordd newydd.

Atodiad A

Mynychwyr y Gweithdy

A1 Mynychwyr y Gweithdy

Awdurdodau Lleol

Sefydliad	Mynychwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Richard Metford
Cyngor Dinas Caerdydd	Paul Carter
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Gareth Chapman
Cyngor Sir Fynwy	Nigel Burgess
Cyngor Sir Fynwy	Paul Keeble
Cyngor Sir Fynwy	Colin Phillips
Cyngor Sir Fynwy	Y Cyng James Harris
Cyngor Sir Fynwy	Y Cyng Bryan Jones
Cyngor Sir Casnewydd	Andy Williams
Cyngor Sir Casnewydd	Andrew Morris
Cyngor Sir Casnewydd	Graham Fry
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng Jeff Evans
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng Charles Ferris
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng Richard White
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng David Hando
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng Alexander Suller
Cyngor Sir Casnewydd	Y Cyng Valerie Dudley
Cyngor Sir Casnewydd	Bryan Kemp
Cyngor Sir Casnewydd	Amanda Davies (Ysgolion yng Nghasnewydd)
Bro Morgannwg	Clare Cameron

Aelodau Seneddol

AS	Sheryl Edwards
----	----------------

Erail

Tim cymorth canolog SEWTA	Martin Buckle
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	Ian Duguid
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Tim Dorken
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mark Newey
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gwynneth Evans

Tîm Mesurau Gwella Coridor yr M4

Llywodraeth Cynulliad Cymru	Russell Bennett
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mark Dixon
Arup	Richard Sanders
Arup	Allan Pitt
Arup	Ian Amos
Catrin Ellis Associates	Catrin Ellis Jones, hwylusydd
Catrin Ellis Associates	Lynn Wetenhall, hwylusydd
Catrin Ellis Associates	Helena Poldervaart, hwylusydd

Atodiad B

Ffocws ystyriaethau
cyfranogwyr – Problemau,
Cyrcnodau a Nodau diffiniedig
Llywodraeth Cynulliad Cymru
mewn perthynas â Rhaglen
Mesurau Gwella Coridor yr M4
(Magwyr i Gas-bach)

B1 Ffocws ystyriaethau cyfranogwyr – Problemau, Cyrchnodau a Nodau diffiniedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (Magwyr i Gas-bach)

Yn dilyn cyflwyniad byr i Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, a chyd-destun ei datblygiad, cafwyd cyflwyniad am Nodau'r Rhaglen a'r modd yr aethpwyd ati i ddefnyddio proses WelTAG (proses arfarnu dechnegol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) i nodi problemau'n gysylltiedig â theithio ar hyd Coridor yr M4. Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried y problemau a nodwyd, ac i adrodd eu barnau yn ôl. Nesaf, cafwyd cyflwyniad ar y modd y gosodwyd cyrchnodau, er mwyn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r problemau a nodwyd. Fe wnaeth y cyfranogwyr yn eu tro gynnig sylwadau ar y cyrchnodau hyn. Yn olaf, ar ôl edrych ar y problemau a'r cyrchnodau yn fanwl, gofynnwyd i'r cyfranogwyr feddwl ychydig am y darlun mwy, ac ystyried nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

1. Prif broblemau'n ymwneud â Choridor yr M4 (Magwyr i Gas-bach)

Cymerwyd y deunydd hwn o'r adroddiad: 'Adendwm i Ganllaw Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad y Cyfnod Cynllunio, Drafft 1 Dogfen Weithio Mai 2009'.

Fe wnaeth proses WelTAG nodi problemau allweddol fel a ganlyn:

1. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 ar adegau pan fo tarfu dros dro (er enghraifft, yn dilyn damweiniau, problemau'n cael eu hachosi gan dywydd difrifol, neu yn ystod prif ddigwyddiadau).
2. Mae mwy o drafft yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur.
3. Rhagwelir y bydd lefelau traffig yn parhau i gynyddu, felly bydd problemau 1 a 2 yn gwaethygu dros gyfnod.
4. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad ar dwf economaidd (er enghraifft, wrth i gwmnïau cludo nwyddau weld mwy a mwy o oedi o ran dosbarthu, gallant benderfynu peidio â buddsoddi yn Ne Cymru).
5. Mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol helaeth ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau am gyfnodau hir ar lonydd a chyflymder, a bydd hyn yn cynyddu problemau tagfeydd.
6. Mae cerbydau nwyddau trwm yn ymdopi'n wael gyda thagfeydd am eu bod yn cymryd mwy o amser i ailgychwyn ar ôl iddynt stopio, ac mae hynny'n ychwanegu at y tagfeydd.

7. Mae'r traffig sy'n symud yn araf mewn tagfeydd ar y draffordd o amgylch Casnewydd yn ychwanegu at broblemau llygredd aer.
8. Mae symudiad y traffig yn stopio ac yn ailgychwyn ar yr M4 yn arwain at gynydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddirwyrstr.
9. Mae'r system drafnidiaeth ffordd a rheilffordd o fewn coridor yr M4 ac o'i amgylch dan berygl cynyddol o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol (er enghraifft, llifogydd).
10. Mae sŵn traffig o'r draffordd yn broblem i drigolion lleol.
11. Nid yw nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu porth gwell i mewn i Gymru yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4.
12. Mae'r system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd.
13. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU.
14. Mae'r problemau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar adegau, ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar deithio yn Ne Cymru.

2. Cyrchnodau Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4

Cymerwyd y deunydd hwn o'r adroddiad: 'Magwyr i Gas-bach. Adendwm i Ganllaw Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad y Cyfnod Cynllunio, Drafft 1 Dogfen Weithio Mai 2009'. Mae'r 'cyrchnodau' (gelwir yn ffurfiol yn 'amcanion cynllunio trafndiaeth') yn amlinellu'r math o ganlyniadau y dylai rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 geisio'u cyflawni.

1. Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru.
2. Gwella'r cysylltiadau trafndiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar y rhwydwaith trafndiaeth rhyngwladol.
3. Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafndiaeth a dulliau trafndiaeth eraill ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd.
4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.
5. Gwneud amserau siwrneiau ar hyd coridor yr M4 yn fwy dibynadwy.
6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafndiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach.
7. Ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau allweddol, yn ogystal â chanolfannau preswyl a chanolfannau masnachol.
8. Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.

9. Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd.
10. Lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel, o draffig yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.
11. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilomedrau cerbyd a/neu bobl.
12. Gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4.

3. Nodau cyffredinol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 2011 - 2020

Fel rhan o strategaeth drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, mae rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 yn canolbwyntio ar yr M4 a'r ardal uniongyrchol o'i chwmpas, a elwir yn goridor yr M4. Mae'r rhaglen yn edrych ar sut i wella gallu'r coridor i ymdopi â lefelau teithio presennol mewn modd effeithlon, a galluogi gwneud mwy o siwrneiau nag ar hyn o bryd.

Mae 3 nod cyffredinol:

Cymdeithasol: ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden [a manau gweithio, ar y ffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio....

Economaidd: i gefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru

Amgylcheddol: i atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwysu yn eu herbyn.

Atodiad C

Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

C1 Papurau Gwybodaeth Cyn y Cyfarfod

I gyd-fynd â'r gwahoddiad i gyfranogi yn y gweithdy, anfonwyd papur gwybodaeth byr at gyfranogwyr -"Nodyn Gwybodaeth Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4". Anfonwyd dogfen hwy at y cyfranogwyr a gadarnhaodd y byddent yn mynychu - "Papur Gwybodaeth Gweithdy Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4" a oedd yn disgrifio Nodau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 a pham yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am gysylltu â rhanddeiliaid ar yr adeg hon, yn ogystal â chyflwyno rhywfaint o'r sail dystiolaeth yn disgrifio rhai o'r problemau yn gysylltiedig â theithio yn yr Ardal hon o Goridor yr M4. Gellir lawrlwytho'r rhain o Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth